OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2008 No. 3154

## Rheoliadau Enseffalopathïau Sbyngffurf Trosglwyddadwy (Cymru) 2008

### RHAN 3

Gweinyddu a gorfodi

**Cymeradwyo, awdurdodi, trwyddedu a chofrestru**

**6.**—(1) Rhaid i Weinidogion Cymru roi cymeradwyaeth, awdurdodiad, trwydded neu gofrestriad o dan y Rheoliadau hyn os bodlonir Gweinidogion Cymru y cydymffurfir â darpariaethau Rheoliad TSE y Gymuned a'r Rheoliadau hyn.

(2) Rhaid i hyn fod mewn ysgrifen a rhaid iddo nodi—

(a) cyfeiriad y fangre;

(b) enw'r meddiannydd; ac

(c) y diben y rhoddir ef ar ei gyfer.

(3) Caniateir ei wneud yn ddarostyngedig i ba bynnag amodau sy'n angenrheidiol er mwyn—

(a) sicrhau y cydymffurfir â darpariaethau Rheoliad TSE y Gymuned a'r Rheoliadau hyn; neu

(b) amddiffyn iechyd y cyhoedd neu iechyd anifeiliaid.

(4) Os gwrthodant roi cymeradwyaeth, awdurdodiad, trwydded neu gofrestriad, neu os rhoddant un yn ddarostyngedig i amodau, rhaid i Weinidogion Cymru—

(a) roi rhesymau mewn ysgrifen; a

(b) esbonio bod hawl gan yr ymgeisydd i gyflwyno sylwadau ysgrifenedig i berson a benodir gan Weinidogion Cymru.

(5) Yna bydd y weithdrefn apelio yn rheoliad 10 yn gymwys.